Canllawiau ar gyfer lluniau a chyfeiriadau coffaol

Mawrth 2016

Eithriad ac nid arfer yw cyfeiriad coffaol. Bwriad S4C yw gwarchod y profiad gwylio i'r gynulleidfa a chyn gwneud cais am gyfeiriad coffaol dylid ym mhob achos ystyried perthnasedd y cyfeiriad i'r gynulleidfa ehangach.

Rydym yn awyddus i osgoi cyfeiriadau coffaol o fewn rhaglenni felly cyfrifoldeb yr Adran Gyflwyno fydd paratoi ac amserlennu cyhoeddiadau dros yr ident i mewn i'r rhaglen neu fel eitem ar wahan ar ddiwedd rhaglenni. Mae S4C yn cadw'r hawl i wrthod neu i olygu unrhyw raglenni sy'n cynnwys cyfeiriadau coffaol *cyn, yn ystod neu ar ôl y credyd hawlfraint.*

Fe fydd yr Adran Gyflwyno yn cymryd i mewn i ystyriaeth addasrwydd y cyfeiriad yng nghyd-destun yr amserlen. Rydym, er enghraifft , yn awyddus i osgoi cyfeiriadau coffaol cyn neu ar ddiwedd rhaglenni a ddarlledir yn ddilynol mewn un noson neu sefyllfa o gyfeiriad coffaol cyn neu ar ddiwedd bob rhaglen mewn cyfres . O dro i dro, ni fyddai cyfeiriad coffaol yn addas oherwydd natur noson.

Bydd S4C yn ystyried llun neu gyfeiriad coffaol i unigolyn os bydd:

- Y rhaglen yn cael ei darlledu neu'i hailddarlledu fel teyrnged iddo/iddi.
- Yr unigolyn yn ymddangos yn y rhaglen, yn ddelfrydol yn cymryd rhan flaenllaw yn y rhaglen.
- Yr unigolyn yn rhywun sydd wedi marw yn eithaf diweddar
- Yr unigolyn yn berson blaenllaw sydd wedi ymwneud â'r rhaglen

Dylai'r cwmni cynhychu gychwyn drwy gysylltu gyda chomisiynydd y rhaglen neu'r gyfres gan ofyn iddo fe/iddi hi gymeradwyo cyfeiriad coffaol.

Wedi derbyn cymeradwyaeth fe ddylai'r cwmni cynhyrchu gysylltu gyda'r Adran Gyflwyno drwy ebost at:

Anwen.Thomas@s4c.cymru
a
trefnyddioncyfryngau@s4c.cymru

Fe fydd staff yr Adran Gyflwyno yn amserlennu'r cyfeiriad ar gyfer darlledu ac yn cydlynu unrhyw anghenion gyda'r cwmni cynhyrchu a staff mewnol S4C.

Yn dibynnu ar yr hyn a gytunir fe fydd angen cyfleu drwy e-bost:

- enw llawn yr un sy wedi marw
- llysenw lle mae'n briodol
- dyddiad geni a dyddiad marw
- llun yr unigolyn ar ffurf .jpg neu .tif

Cyfrifoldeb y cwmni cynhyrchu yw sicrhau fod yr holl fanylion yma yn gywir. Dylai unrhyw luniau a gyfleir fod yn glir o hawliau neu wedi'u clirio at ddarlledu ac at ddefnydd ar wefan S4C. Dylai'r cwmni cynhyrchu gymryd bob cam i sichrau fod y teulu yn ymwybodol o'r bwriad i wneud cyfeiriad coffaol. Mae'n bwysig na chytunir i unrhyw awgrymiadau am eitem, llun neu eiriad fyddai'n groes i'r canllawiau yma.

Rydym yn awgrymu, yn y lle cyntaf ystyried cyhoeddiad dilyniant cyn dechrau'r rhaglen dros ident S4C. Er mwyn sicrhau triniaeth gyson a theg i bawb byddwn yn defnyddio'r sgript ddilynol:

"Ers ffilmio/recordio'r rhaglen hon mae….. sy'n ymddangos yn y rhaglen hon wedi marw. Mae S4C yn estyn/Dymuna S4C estyn cydymdeimlad tuag at ei d/theulu a'i ffrindiau."

"Rydym yn darlledu'r rhaglen hon fel teyrnged i ….. fu farw yn ddiweddar/wythnos yma/ddoe/heddiw …….. Mae S4C yn estyn/Dymuna S4C estyn cydymdeimlad tuag at ei d/theulu a'i ffrindiau." (Rhaglen deyrnged)

Mae cyhoeddiad cyn rhaglen yn gallu hysbysu rhai nad oedd yn ymwybodol o'r marwolaeth neu fyddai, efallai, yn dewis osgoi gwylio'r rhaglen.

Mewn rhai achosion, bydd S4C yn amserlennu eitem graffeg ar ddiwedd y rhaglen neu'r gyfres berthnasol. Bydd Adran Graffeg S4C yn paratoi eitem fydd yn cynnwys enw a dyddiadau geni a mawr a, lle mae modd, llun y person.

Fe fydd yr Adran Gyflwyno yn gyfrifol am gydlynu eitemau hyrwyddo a hysbysebion addas i ddilyn yr eitem yma.

Yr arfer yw un cyfeiriad coffaol dros y darllediad cyntaf yn dilyn y marwolaeth. Ni fydd cyfeiriadau ar ddiwedd ailddarllediadau dilynol.